Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Yr Uned Wenyn Genedlaethol

Triniaeth ysgwyd haid

Awst 2024

Mae ysgwyd haid yn golygu trosglwyddo gwenyn llawndwf ar sylfaen newydd mewn cwch gwenyn glân ac yna ddinistrio'r hen grwybr ac unrhyw fag cysylltiedig. Mae triniaeth ysgwyd haid yn ffordd effeithiol o reoli plâu a chlefydau a gellir ei defnyddio i gael gwared ar hen grwybrau.Mae'r daflen ffeithiau hon yn disgrifio sut i ysgwyd haid.

Pam y defnyddir triniaeth ysgwyd haid

Yn y DU, defnyddir y dechneg ysgwyd haid i drin nythfeydd sy'n dioddef o glefyd Ewropeaidd y gwenyn ar lefelau isel, yn lle defnyddio gwrthfiotigau sy'n llai effeithiol[1]. Fodd bynnag, yn y DU, mae clefyd Ewropeaidd y gwenyn yn glefyd hysbysadwy statudol ac os amheuir bod y clefyd mewn nythfa, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar wenynwyr i hysbysu'r UWG. Mae'r broses ysgwyd haid i drin clefyd Ewropeaidd y gwenyn ond yn cael ei chynnal gan Arolygydd Gwenyn Awdurdodedig, neu ochr yn ochr ag Arolygydd Gwenyn Awdurdodedig. **Mae'r protocol a ddisgrifir isod ar gyfer ysgwyd haid pan na fydd clefyd Ewropeaidd y gwenyn yn bresennol.**

Profwyd bod ysgwyd haid yn ffordd effeithiol o leihau lefelau *Varroa*[2], a gellir ei defnyddio i drin nythfeydd sydd wedi'u heintio gan chalkbrood ar raddfa fawr[3]. Bydd hefyd yn fuddiol iawn ysgwyd haid os yw'r nythfa yn cynnwys llawer o hen fframiau magu brwnt.

Pryd y gellir ysgwyd haid

Yr amser gorau i ysgwyd haid yw rhwng canol mis Mawrth a chanol mis Gorffennaf, yn dibynnu ar yr ardal leol. Mae angen poblogaeth sylweddol o wenyn ifanc o'r oedran cywir yn y nythfa er mwyn gwneud cŵyr; mae'r mwyafrif o'r gwenyn sy'n gwneud cŵyr rhwng 10 ac 20 diwrnod oed[4]. Bydd fel arfer yn rhy oer i wenyn dynnu crwybr newydd yn effeithiol cyn mis Mawrth, a gall colli mag mor gynnar yn ystod y flwyddyn fod yn niweidiol. Os defnyddir triniaeth ysgwyd haid fel y dull rheoli arferol, byddai'n well osgoi'r cyfnod pan gaiff wyau eu dodwy a fydd yn datblygu'n wenyn a fydd yn porthi ar y prif lif mêl. Bydd hyn yn dibynnu ar ranbarth daearyddol y gwenynwr a'i brofiad o brif gnydau lleol.

---

[1] Waite, R.J., Brown, M.A., Thompson, H.M. a Bew, M.H. (2003) Controlling European foulbrood with the shook swarm method and oxytetracycline in the UK. Apidologie, 34 (6). DOI: doi.org/10.1051/apido:2003052

[2] Mortensen, A.N., Jochym, M., Dearden, P.K. a Sainsbury, J.P. (2023) Old strategies as modern solutions, shook swarming reduced *Varroa destructor* infestation rates of managed honey bee, *Apis mellifera*, colonies. Journal of Apicultural Research, 1-7. DOI: doi.org/10.1080/00218839.2023.2243044

[3] Betts, A. (1935) The diseases of bees: their signs, causes and treatment. Cyhoeddwyd gan The Apis Club, y DU.

[4] Goodman, L. (2003) Form and function in the honey bee. Pennod 8: Glands. Cyhoeddwyd ar y cyd gan Gymdeithas Ryngwladol Ymchwil Gwenyn a Northern Bee Books.

Paratoi

Cyn dechrau, bydd angen y deunyddiau canlynol arnoch:

- Siambr fagu newydd, sy'n llawn fframiau glân sylfaen newydd, llawr ac atalfa mynedfa, bwrdd gorchudd a tho.
- Atalydd brenhines ar ffurf ffrâm
- Porthwr cyflym sy'n gallu dal o leiaf 4.5 litr o borthiant
- Stribedi ewynnog neu ddeunydd arall i atal mynedfeydd
- Bagiau plastig neu fagiau papur cryf sy'n ddigon mawr i osod crwybrau/fframiau a thâp glynu i'w selio.
- Cawell brenhines (dewisol)

Bydd angen i chi wneud y canlynol:

- Paratoi 4 litr o surop siwgr cryf drwy doddi 1 kg o siwgr gwyn gronynnog fesul 500 ml o ddŵr twym
- Sicrhau bod yr holl gyfarpar yn lân cyn ei ddefnyddio

Dull o ysgwyd haid

Nid argymhellir ysgwyd heidiau ar gyfer nythfeydd bach sy'n cynnwys llai na 6 ffrâm o wenyn. Os bydd angen ysgwyd nythfa fach, yna dylid ei rhoi mewn blwch cnewyllol.

Cam 1. Symudwch y cwch gwenyn rydych yn bwriadu ei ysgwyd ychydig bellter o'r safle gwreiddiol.

Ffigur 1: Gosodwch gwch gwenyn glân lle roedd y cwch gwenyn rydych yn bwriadu ei ysgwyd wedi'i leoli; symudwch y cwch

Ffigur 2:Gwnewch yn siŵr bod yr atalydd brenhines o dan y blwch magu cyn ysgwyd y gwenyn ynddo; mae hyn yn atal y gwenyn rhag dianc gyda'r frenhines

Cam 2. Gosodwch y llawr glân ar safle gwreiddiol y cwch gwenyn. Rhowch yr atalydd brenhines *dros y llawr* ac yna gosodwch y blwch magu glân sy'n cynnwys fframiau o sylfaen ar ben yr atalydd brenhines. Defnyddiwch atalfa mynedfa i ategu'r atalydd brenhines os bydd yn pantio wrth fynedfa'r cwch gwenyn ar safle gwreiddiol y cwch gwenyn.

Cam 3. Tynnwch y pedair ffrâm ganol o'r blwch magu newydd a'u rhoi o'r neilltu. Bydd y gwenyn sy'n hedfan o'r hen gwch gwenyn yn dychwelyd i'r siambr fagu lân hon.

Cam 4. Agorwch y cwch gwenyn rydych yn bwriadu ei ysgwyd, gan dynnu'r llofftydd mêl a'r atalydd brenhines (os yw'n bresennol). Gosodwch nhw y tu mewn i'r to wyneb i waered. Archwiliwch yr hen siambr fagu i ddod o hyd i'r frenhines

Noder: Os nad ydych yn gyfforddus yn dod o hyd i'r frenhines, yna gwnewch yn siŵr eich bod yn ysgwyd y gwenyn i mewn i'r nythfa newydd yn ofalus ac yn archwilio pob darn o'r cyfarpar yn ofalus cyn ei ailosod. Wrth ysgwyd fframiau, ni ddylent gael eu hysgwyd yn llythrennol ond, yn hytrach, dylai'r gwenyn gael eu bwrw oddi ar y ffrâm drwy wneud un symudiad cyflym tuag i lawr; cymerwch ofal na fyddwch yn bwrw'r ffrâm yn erbyn y cwch gwenyn na fframiau eraill (gweler isod)

Cam 5. Ar ôl dod o hyd i'r frenhines, gosodwch hi rhwng y fframiau o sylfaen yn y blwch newydd, neu mewn cawell brenhines fel y gellir ei rhyddhau i mewn i'r siambr newydd pan fyddwch wedi gorffen ysgwyd y gwenyn

Cam 6. Ysgwydwch yr holl wenyn o'r hen grwybrau i mewn i'r siambr newydd. Gwneir hyn drwy ddal ffrâm o wenyn tua thraean o'r ffordd i mewn i'r bwlch rhwng fframiau'r sylfaen yn y siambr lân. Wedyn caiff y ffrâm ei symud yn gyflym tuag i lawr a'i stopio'n sydyn. Ceisiwch osgoi taro'r crwybr yn erbyn y siambr. Bydd y gwenyn yn cwympo oddi ar y crwybr i mewn i'r blwch newydd a bydd modd i unrhyw wenyn a fydd ar ôl ar y crwybr gael eu brwsio i ffwrdd

Cam 7. Ysgwydwch a brwsiwch unrhyw wenyn sydd ar yr hen gyfarpar i'w symud i mewn i'r siambr newydd. Os oes unrhyw lofftydd mêl, ysgwydwch y gwenyn oddi wrthynt i mewn i'r blwch magu.

Ffigur 3: Gafaelwch yn dynn yng nghlustiau'r ffrâm a'i symud yn araf i mewn i'r gofod rhwng y fframiau. Ysgwydwch y ffrâm yn sydyn tuag i lawr i mewn i'r siambr fagu

Cam 8. Pan fydd yr holl wenyn wedi cael eu hysgwyd i mewn i'r siambr fagu newydd, rhowch y fframiau o sylfaen a dynnwyd i greu gofod yn ôl yn eu lle. Rhowch nhw yn y bwlch a byddant yn gostwng yn araf tuag i lawr wrth i'r gwenyn wasgaru tuag i fyny o'r llawr arnynt. Rhowch y frenhines yn y blwch magu os cafodd ei chawellu yn ystod y broses.

Ffigur 4: Unwaith y bydd y gwenyn wedi'u hysgwyd i mewn i'r blwch magu newydd, bydd modd gosod fframiau eraill y sylfaen y tu mewn i'r blwch yn ofalus

Cam 9. Rhowch y bwrdd gorchudd yn ei le

Cam 10. Bwydwch y nythfa â surop siwgr 'trwm'. Gellir gosod unrhyw lofftydd mêl uwchben y porthwr tan nad oes angen y porthwr mwyach; yna, gellir ei osod uwchben yr atalydd brenhines fel arfer

Cam 11. Edrychwch ar y nythfa ar ôl wythnos i weld a oes mag. Pan fydd mag yn bresennol, mae'n annhebygol y bydd y frenhines yn dianc. Tynnwch yr atalydd brenhines a'i lanhau fel y bo'n briodol. Os nad oes unrhyw fag yn bresennol, edrychwch eto o fewn wythnos arall. Dim ond pan fyddwch yn gallu gweld wyau a larfâu y dylid tynnu'r atalydd brenhines.

Cam 12. Parhewch i fwydo nes bod yr holl grwybrau wedi'u tynnu. Ar y pwynt hwn, mae'n bosibl y bydd angen troi'r crwybrau ar y pen o gwmpas neu eu symud un ffrâm i mewn i'r siambr. Y rheswm dros hyn yw y bydd gwenyn yn ei chael hi'n anodd clystyru a chreu cŵyr ar fframiau sy'n agos at ochr y blwch magu

Ôl-ofal

Ar ôl i nythfa gael ei hysgwyd, bydd angen ei harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y nythfa yn adfer yn llwyr. Am wybodaeth fanylach am sut i ofalu am nythfa ar ôl ysgwyd haid, gweler ein taflen ffeithiau '[Gofalu am nythfeydd ar ôl triniaeth ysgwyd haid](#)'.

Ffigur 5: Ar ôl ysgwyd haid, bydd fframiau glân a chŵyr sydd newydd ei dynnu yn fuddiol i'r nythfa. Yn y ffotograffau hyn dangosir y nythfeydd 16 diwrnod ar ôl cael triniaeth ysgwyd haid

Yr Uned Wenyn Genedlaethol
APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York, YO41 1LZ
Rhif ffôn: 0300 303 0094
E-bost: nbu@apha.gov.uk
Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Awst 2024

(h) Hawlfraint y Goron 2024

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk